CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **GWYS A RHAGLEN** | **SUMMONS AND AGENDA** |
| **ar gyfer** | **for a** |
| **CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN** | **EXTRAORDINARY MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL** |
| **a gynhelir yn** | **to be held at the** |
| **SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFA'R SIR LLANGEFNI** | **COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI** |
| **DYDD MAWRTH, 18 MEHEFIN 2013** | **TUESDAY, 18 JUNE 2013** |
| **am 10.30 o'r gloch** | **at 10.30 am** |

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y Rhaglen.

2 **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, YR ARWEINYDD NEU'R PRIF WEITHREDWR.**

3 **NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y GYNGOR – PENODI AELODAU CYFETHOLEDIG HEB HAWLIAU PLEIDLEISIO I WASANAETHU AR BWYLLGORAU SGRIWTINI**

Dweud fod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 10 Mehefin wedi penderfynu fel a ganlyn:-

*"Argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn dirprwyo i bob Pwyllgor Sgriwtini y disgresiwn i benodi aelodau cyfetholedig heb hawliau pleidleisio am ba gyfnod bynnag ac ar y telerau y bydd y Pwyllgor Sgriwtini yn eu hystyried i fod yn briodol heb orfod cael caniatâd y Cyngor a rhoi'r awdurdod i'r Swyddogion wneud unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad yn dilyn hynny."*

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 10 Mehefin 2013.

4 **COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL AR GYFER CYMRU – PAPUR YMGYNGHORI YNGHYLCH MAINT CYNGHORAU**

(1) Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

(2) Cyflwyno copi o'r Papur Ymgynghori.

5 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

*"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."*

6 **PWRCASU CERBYDAU CASGLU GWASTRAFF**

Dweud fod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 10 Mehefin, 2013 wedi penderfynu argymell yr isod i'r Cyngor Sir:-

*"Mai'r opsiwn a ffefrir yw Opsiwn 2, sef pwrcasu Cerbydau Adennill Adnoddau (CAA) newydd a defnyddio'r biniau 240 litr cyfredol ar gyfer dechrau ail hanner y contract 14 mlynedd.*

*Cytuno y gall Biffa symud ymlaen ar unwaith i archebu Cerbydau Adennill Adnoddau, casglu gwastr af a glanhau strydoedd newydd i osgoi'r costau ychwanegol yn sgil Euro 6.*

*Cytuno y dylai'r Gwasanaeth Cyllid drafod a yw'n ymarferol i'r Cyngor ariannu pryniant yr holl gerbydau newydd gyda Biffa a symud ymlaen i ddarparu'r cyllid hwn, pe bai'n fanteisiol i'r Cyngor a bod gwarantau digonol yn eu lle bod y cerbydau'n parhau i fod ym meddiant y Cyngor pe bai'r contractwr yn cael anawsterau ariannol.*

*Bod Swyddogion yn parhau i adolygu'r opsiynau casglu yn ystod ail hanner y contract 14 mlynedd gyda Biffa ac yn darparu i'r Pwyllgorau perthnasol wybodaeth bellach ar systemau i'w hystyried ar gyfer y dyfodol ynghyd â chostau'r systemau hynny, gan gadw mewn cof y bydd proses gaffael newydd yn dechrau yn 2019/20 am gontract newydd i ddechrau yn Ebrill 2021.*

*O ystyried yr amgylchiadau a ddisgrifir yn yr Adroddiad hwn a'r angen i weithredu ar frys, bod y Pwyllgor, yn unol â Rheol Gweithdrefn Contractau 4.5.16.10, yn cytuno na fydd y penderfyniad yn un y gellir ei alw i mewn gan y byddai hynny'n niweidio diddordeb y Cyngor yn ddifrifol."* .

Adroddir ar yr eitem hon i'r Cyngor llawn er gwybodaeth oherwydd roedd wedi ei heithrio o'r drefn galw-i-mewn am ei bod yn eitem yr oedd angen rhoddi sylw brys iddi.

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd a Rheoli Gwastraff fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 6 Mehefin, 2013.